

+

1/30



Cyflafan Ofnadwy Dolgellau!

Can am Lofruddiaeth

DDYCHRYNLLYD

SARAH HUGHES,

Yn gosod allan y modd y darganfyddwyd ei chorff,
yn nghyd â daliad y Llofrudd,

CADWALADR JONES,

Yr hwn a gyfaddefodd mai efe yn unig a gyflawnodi
y weithred ysgeler!

GYMRY anwyl! clywch yr hanes
Roddai brudd-der i bob dyn;
Drwg yr ydym oll wrth natur,
Ond mae'r adyn hwn yn un
O'r rhai gwaethaf a gronielwyd
'Rioed yn hanes Cymru fâd;
O! Meirionydd, rhwng dy fryniau,
Fe ddaeth gwarthrudd ar y wlad.

Sarah Hughes, gerllaw Dolgellau,
 Ydoedd lodes lawen, lon,
 Ond y llofrudd hyll elyllaidd—
 Erchyll oedd eigeiddio hon ;
 Ar bedwaredd o Fehefin,
 Mil wyth gant saith deg a saith,
 Y mae llawer calon ddrylliog,
 Hefyd llawer llygad llaith.

Cadwaladr Jones oedd enw'r llofrudd,
 Cyfaddefodd hwn yn hy',
 Swyddogion gwladol aethant yno,
 I wneyd ymchwil ar ei dŷ,
 Fe ganfyddwyd yno feddrod
 Mewn llain gul, gerllaw i'r lle,
 Y fan ysbeiliwyd hi o'i bywyd—
 Hyrddio i wyddfod Brenin Ne'.

Ac fe'i cyrchwyd ef i'r carchar,
 A'i gloi dan gloion dewrion dŵr,
 Am gyflawni gwaith mor 'sgeler,
 Hefyd tori cyfraith tir ;
 Ond mae diwrnod eto'n dyfod—
 Diwrnod sobr, diwrnod trist,
 Pan bydd llofrudd yn ymddangos
 O flaen brawdle Iesu Grist.

A'i thori yn un-ar-ddeg o ddarnau
 Wnaeth yr adyn creulon, cri,
 A'u taflu oll i afon Aran,
 Er myn'd ymaith gyda'r lli';
 Glynau oll a wnaethant yno,
 Rhwng cruchiadau dyfroedd blin,
 Darganfyddwyd yr holl ddarnau
 Ond y badell pen ei glin.

O dref Diram, o swydd Norfolk,
 Daeth Greenacre creulon, cudd;
 Hefyd Baker, Henry Wainwright,
 Cofir rhai'n dros lawer dydd;
 Mary Anne Cotton, o West Aukland,
 Wnaeth weithredoedd sobr, syn,
 Hefyd Fish o Blackburn, eilliwr,
 Cofir y llofruddion hyn.

Yn y llain yr oedd y llofrudd,
 Gerllaw i'r bedd lle buo hi
 Am bum' wythnos, nol meddyliau
 Dysg fedydgon sydd mewn bri;
 A'r swyddogion ganfyddasant
 Gi yn cario darn o'i chnawd—
 Perodd ddychryn i'r edrychwyr—
 A'i gwallt yno, hefyd gawd.

Ar yr olaf o fis Hydref,
 O flaen rheithwyr tæg ei wlad,
 'N mrawdlys gauaf tref Caerlleon,
 Ca'dd ei dreial heb nacâd;
 Yno cafwyd ef yn euog
 O gyflawni'r 'sgeler waith,
 A dedfrydwyd ef i farw,
 Ar y crogbren—trwm yw'r ffaith.

HUGH ROBERTS (*Pererin Môn*).

ATEBIAD Y CARCHAROR I LYTHYR EI DAD O GARCHAR DOLGELLAU.

Derbyniais lythyrau, rhai gwych a rhai gwan,
 Ond dyma'r anwylaf gyrhaeddodd i'm rhan;
 Un llawn o gynghorion, rhai mwynion a mad,
 I mi sydd bechadur, yw llythyr fy nhad.

Mae nghalon yn dawneio, yn erio bob yrnail,
 A'm gwallt ar fy nghoryn yn ysgwyd fel dail;
 'Rwy'n credu fod Iesu yn rhoi caniatâd,
 I dderbyn pechadur, 'nol llythyr fy nhad.

Fy Ysgol Sabbathol, cymhellwyd fi fyn'd,
 Yn berffaith o galon gan fyddlon hen ffrind;
 A phan gaiff o glywed, caiff wir esmwythad,
 'Rwy'n credu'r ysgrythyr sy'n llythyr fy nhad.

Na roddwch, ieuentyd, eich bywyd i'r byd,
 Rhowch aml ochenaid—mae enaid yn ddrud;
 Ein Harglwydd groëshoeliwyd er mwyn ein rhyddhad,
 Yw llais yr ysgrythyr sy'n llythyr fy nhad.

Wel, myned i'r carchar yn gynar a ge's,
 Feallai gwna'r carchar i'm lawer o les;
 'Dwy'n hidio mo'r carchar, 'rwy'n edrych i'r wlad,
 Sy'n nglŷn â'r ysgrythyr sy'n llythyr fy nhad.

Yn fwy na bu'r gwylwyr yn disgwyl erioed,
 Am weled y bore', 'rwy'n disgwyl o'r "Coed,"
 Am lythyr caredig, a llawn o fwynhad,
 Tyneru fy natur mae llythyr fy nhad.

O dewch at-yr Iesu, na feiddiwch ymdroi,
 Mae yma le dyddan i'r truan gael troi,
 A dyfroedd y bywyd yn rhedeg yn rhad,
 Gan Gyfaill pechadur, trwy llythyr fy nhad.

Mae Brenhin brenhinoedd yn anfon ei gais,
 O deued 'r hil ddynol i wrando ar ei lais;
 Mae am i ni 'mostwng, heb wneuthur nacâd,
 I'w weled yn eglur yn llythyr fy nhad.

Pechodau fel 'sgarlad, fel eira wna'n lân,
 A phechod fel porphor gan wyned a'r gwlan;
 'Rwy'n wylo wrth feddwl mai caru lleshad
 Rhwng Duw a phechadur, mae llythyr fy nhad.

CADWALADR JONES.